10 Ebrill 2025

At: Benaethiaid darparwyr addysg uwch yng Nghymru sy'n tanysgrifio i HESA ac yn dychwelyd y Cofnod Alltraeth Cyfun

**Casglu darpariaeth addysg drawswladol (TNE) a dyfarniadau yn y DU yn unig ar gofnod myfyrwyr HESA**

Pwrpas yr ohebiaeth hon yw rhoi gwybod ichi am newid i ofynion adrodd ar gyfer darpariaeth addysg drawswladol (TNE) a darpariaeth dyfarniadau yn y DU yn unig.

Ym mis Medi 2024, cyhoeddwyd y byddai cofnod myfyrwyr HESA yn cael ei ehangu i gasglu data ar fyfyrwyr TNE a dyfarniad yn y DU yn unig ar sail unigol o 2026/27. Y nod oedd cael gwell dealltwriaeth o'r ddarpariaeth hon i ddibenion ansawdd a rheoleiddio; darparu gwybodaeth i asesu'r risgiau'n gysylltiedig â'r math hwn o ddarpariaeth; a monitro cydymffurfiaeth â'n gofynion rheoleiddio.

Nid ydym bellach yn mynnu bod darpariaeth TNE a dyfarniadau yn y DU yn unig yn cael eu casglu ar gofnod myfyrwyr HESA o 2026/27 ac rydym yn gohirio'r gofyniad i ddychwelyd y data hyn i Jisc ar sail unigol, nes y clywir yn wahanol. Yn lle hynny, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddychwelyd data TNE ar Gofnod Alltraeth Cyfun (AOR) HESA sydd wedi'i ehangu o 2026/27.

Rydym yn newid ein dull i gydnabod y byddai dychwelyd y data hyn ar sail unigol yn arbennig o heriol ar hyn o bryd, ac yn yr hinsawdd sydd ohoni. Mae'r dull newydd yn rhoi sylw i ganlyniadau'r adolygiad annibynnol o weithrediad Dyfodol Data. Mae hefyd yn ymateb i sylwadau a fynegwyd wrthym yn ddiweddar, lle'r oedd nifer o ddarparwyr yn dweud y byddent yn ei chael hi'n anodd cyflwyno'r data ar sail unigol yn 2026/27, oherwydd prinder adnoddau a ffactorau eraill. Rydym wedi ystyried a fydd defnyddio'r ffurflen AOR estynedig yn bodloni ein gofynion ac wedi dod i'r casgliad, ar ôl pwyso a mesur, y bydd yn ddigonol ar gyfer ein hanghenion fel trefniant dros dro. Gall dadansoddi'r data a ddychwelwyd ar yr AOR estynedig arwain at geisiadau am ragor o wybodaeth os na ellir tynnu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom o ddata'r AOR estynedig.

Ni fyddwn yn casglu data ar ddyfarniadau yn y DU yn unig drwy gofnodion HESA, ond byddwn yn casglu'r wybodaeth honno drwy ddulliau eraill, fel ffurflenni rheoleiddio, a byddwn yn cynnal deialog pellach â darparwyr ynghylch eu darpariaeth dyfarniadau yn y DU yn unig lle bo angen.

Rheswm arall dros roi heibio ein gofynion i gasglu data TNE ar sail unigol am y tro yw er mwyn i'r holl bartïon dan sylw allu canolbwyntio ar weithredu trefniadau casglu data yn ystod y flwyddyn yn llwyddiannus. Mae ein hamserlen ar gyfer hyn yn dal i gael ei thrafod ond gallwn gadarnhau na fydd yn ofynnol i ddarparwyr Cymru ddychwelyd data yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2027/28.

Mae'r dull hwn yn golygu y bydd casgliadau data TNE yn gyson ar draws y DU.

Rydym yn cydnabod bod llawer o newid wedi bod dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o ganlyniad i weithredu Dyfodol Data. Rydym yn siarad yn rheolaidd â swyddogion cyswllt data myfyrwyr o fewn darparwyr am eu pryderon ac yn croesawu unrhyw adborth. Cysylltwch â ni pe bai'n fuddiol ichi gael sgwrs bellach, neu os oes unrhyw broblemau yr hoffech inni roi sylw iddynt yn ein fforymau darparwyr, fel Grŵp Adolygu Cofnod Myfyrwyr Medr.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Hannah Falvey, Pennaeth Ystadegau Addysg Uwch, hannah.falvey@medr.cymru.

Yn gywir,

**James Owen**

Prif Swyddog Gweithredu

Copi i: Cysylltiadau data